OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanddewi Felffre i Redstone Cross, Sir Benfro) (Gwahardd Troi i'r Chwith, Terfynau Cyflymder 40 mya a 30 mya a Dileu Cyfyngiad) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Hydref 2025* |
| *Yn dod i rym* | *15 Hydref 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40 a'r darn perthnasol o'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd sy'n rhedeg i'r de o'r gefnffordd honno ac yn gyfochrog â hi, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2)(a), 82(2)(a), 83(1), 84(1)(a) a (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adrannau 83(1) a 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A40 Trunk Road (Llanddewi Velfrey to Redstone Cross, Pembrokeshire) (Prohibition of Left-Hand Turn, 40 mph and 30 mph Speed Limits and Derestriction) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *14 October 2025* |
| *Coming into force* | *15 October 2025* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 trunk road and the relevant length of the de-trunked A40 running south of and parallel to that trunk road, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and (2)(a), 82(2)(a), 83(1), 84(1)(a) and (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have given public notice of their intention to make this Order in accordance with sections 83(1) and 84(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Dyfed–Powys Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(**2**).

(**1**) 1984 c. 27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(**2**) S.I. 1990/1656.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanddewi Felffre i Redstone Cross, Sir Benfro) (Gwahardd Troi i'r Chwith, Terfynau Cyflymder 40 mya a 30 mya a Dileu Cyfyngiad) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Hydref 2025.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cerbytffordd" ("*carriageway*") yw ffordd draffig sy'n ffurfio priffordd neu wedi ei chynnwys mewn priffordd, gan ei bod yn ffordd (ac eithrio llwybr beicio) y mae gan y cyhoedd hawl tramwy drosti ar gyfer tramwyo cerbydau;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun; ac

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd, neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwahardd Troi i'r Chwith**

**3.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r chwith ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the A40 Trunk Road (Llanddewi Velfrey to Redstone Cross, Pembrokeshire) (Prohibition of Left-Hand Turn, 40 mph and 30 mph Speed Limits and Derestriction) Order 2025 and this Order comes into force on 15 October 2025.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"carriageway" ("*cerbytffordd*") means a traffic way constituting or comprised in a highway, being a way (other than a cycle track) over which the public have a right of way for the passage of vehicles;

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means:

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**);

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" *("lluoedd arbennig")* means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director; and

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A40 London to Fishguard trunk road.

**Prohibition of Left-Hand Turn**

**3.** No person may cause or permit any vehicle to make a left-hand turn in the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

(**1**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

**Cyfyngiadau**

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r ffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r ffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn**.**

**Dileu Cyfyngiadau**

**6.** Bydd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984.

**Amrywio**

**7.** Yn erthygl 2 o Orchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanddewi Felffre, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2004(**1**) yn lle "672 metr" rhodder "553 metr".

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Hydref 2025

Nicci Hunter

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd Troi i'r Chwith**

Cerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i'r ffordd ymyl i'r de o'r gefnffordd sy'n cysylltu â'r B4313 Redstone Road wrth Gyffordd Redstone Cross.

**ATODLEN 2**
**Terfyn cyflymder 40 mya**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 71 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol Cylchfan Penblewin hyd at bwynt 82 o fetrau i'r de-orllewin o ganol Cylchfan Penblewin gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Penblewin.

(**1**) O.S. 2004/3053 (Cy. 262)

**Restrictions**

**4.** No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the roads specified in Schedule 2 to this Order.

**5.** No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the road specified in Schedule 3 to this Order**.**

**Derestriction**

**6.** The lengths of the trunk road specified in Schedule 4 to this Order shall cease to be a restricted road for the purposes of section 81 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

**Variation**

**7.** In article 2 of the A40 Trunk Road (Llanddewi Velfrey, Pembrokeshire) (50MPH Speed Limit) Order 2004(**1**) for "672 metres" substitute "553 metres".

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 14 October 2025

Nicci Hunter

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Prohibition of Left-Hand Turn**

The westbound carriageway of the trunk road onto the side road south of the trunk road that connects with the B4313 Redstone Road at Redstone Cross Junction.

**SCHEDULE 2**
**40mph Speed Limit**

That length of the trunk road from a point 71 metres northeast of the centre of Penblewin Roundabout to a point 82 metres southwest of the centre of Penblewin Roundabout including the circulatory carriageway of the Penblewin Roundabout.

(**1**) S.I. 2004/3053 (W. 262)

Y darn hwnnw o'r A40 sy'n rhedeg i'r de o'r gefnffordd ac yn gyfochrog â hi o bwynt 65 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Penblewin hyd at bwynt 50 metr i'r dwyrain o ganol Cylchfan Penblewin.

**ATODLEN 3**
**Terfyn cyflymder 30 mya**

Y darn hwnnw o'r A40 sy'n rhedeg i'r de o'r gefnffordd ac yn gyfochrog â hi o bwynt 65 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Penblewin hyd at y fynedfa i Ardal Orffwys a reolir gan Lywodraeth Cymru, 398 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Penblewin.

**ATODLEN 4**
**Dileu cyfyngiad ar ddarnau o'r gefnffordd**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 149 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Dwyrain Llanddewi Felffre hyd at bwynt 154 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganol Cylchfan Dwyrain Llanddewi Felffre, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Dwyrain Llanddewi Felffre.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 165 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Penblewin hyd at bwynt 71 o fetrau i'r dwyrain o ganol Cylchfan Penblewin.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 82 o fetrau i'r de-orllewin o ganol Cylchfan Penblewin hyd at bwynt 171 o fetrau i'r de-orllewin o ganol Cylchfan Penblewin.

That length of the A40 running south of and parallel to the trunk road from a point 65 metres east of the centre of Penblewin Roundabout to a point 50 metres east of the centre of Penblewin Roundabout.

**SCHEDULE 3**
**30mph Speed Limit**

That length of the A40 running south of and parallel to the trunk road from a point 65 metres east of the centre of Penblewin Roundabout to the access to the Welsh Government managed Rest Area, 398 metres to the east of the centre of Penblewin Roundabout.

**SCHEDULE 4**
**Derestricted lengths**

That length of the trunk road from a point 149 metres east of the centre of Llanddewi Velfrey East Roundabout to a point 154 metres northwest of the centre of Llanddewi Velfrey East Roundabout, including the circulatory carriageway of the Llanddewi Velfrey East Roundabout.

That length of the trunk road from a point 165 metres east of the centre of Penblewin Roundabout to a point 71 metres east of the centre of Penblewin Roundabout.

That length of the trunk road from a point 82 metres southwest of the centre of Penblewin Roundabout to a point 171 metres southwest of the centre of Penblewin Roundabout.